

Sut i wneud rhywbeth sy'n popio gan Emma Jones




Bydd angen cerdyn, siswrn, glud, pa bynnag gyfrwng rydych chi am ei ddefnyddio.


Plygwch eich cerdyn yn ei hanner.

Defnyddiais cerdyn maint A5.


Defnyddiwch eich ewin i wneud y plygiau'n glir.



Meddyliwch am beth hoffech ei greu a ble bydd rhaid gosod y darnau. Os torrwrch ddwy linell fer, y cefn fydd yn popio. O dorri dwy linell hwy, yn y blaen y bydd. Gallwch eu gwneud yn ehangach neu'n deneuach gan ddibynnu ar yr hyn rydych am ei ychwanegu atynt.



Ar ôl torri eich llinellau cyfochrog, rhaid eu plygu ymlaen, troi'r cerdyn drosodd a'u plygu'r ffordd arall. Cofiwch ddefnyddio eich ewin.



Rhowch bopeth yn ôl yn ei le. Agorwch y cerdyn gan wthio'r ffenestri naid allan â'ch bawd.

Plygwch y cerdyn drosodd a gwnewch yn siŵr bod pob plyg yn glir.



Gallwch ddarlunio ar y cerdyn. Gludwch y darnau'n ôl a dorroch allan – gallant fynd rywle ond rhaid i'r darnau fydd yn popio fod ar flaen y peth. Mae X yn dynodi'r lle!!



Nawr gludwch eich golygfa.

Yn y llun dim ond dwy linell sydd wedi'u torri allan am hyd y gath ond gallwn fod wedi gwneud dau deneuach i gludo'r coesau'n unig.



Dyma'r olwg o'r ochr.



Dyma'r un wnes i yn y fideo.



Maent yn syml iawn i'w gwneud. Gallwch wneud golygfeydd neu gardiau 3D ar gyfer penblwyddi. Mae'n beth da i'w wneud gyda'r plant. Nid oes rhaid hyd yn oed ddarlunio arnynt - gallech ddefnyddio lluniau cylchgrawn neu ffotocopiö rhywbeth.

Ond mwynhewch y broses a rhowch gynnig arni.